

## ROSS, JOHN (1729? - 1807), argraffydd a chyhoeddwr llyfrau, etc., yng Nghaerfyrddin.

**Enw:** John Ross  
**Dyddiad geni:** 1729?  
**Dyddiad marw:** 1807  
**Plentyn:** Ann Scott (née Ross)  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** argraffydd a chyhoeddwr llyfrau, etc.  
**Maes gweithgaredd:** Argraffu a Chyhoeddi  
**Awdur:** William Llewelyn Davies

Ychydig o wybodaeth sydd ar gael am John Ross fel person. Dysgasai ei grefft argraffu yn Llundain, a dechreuodd argraffu yng Nghaerfyrddin yn 1763 (gyda **Rhys Thomas**); bu hefyd yn cydargraffu neu gydgyhoeddi ychydig lyfrau â **John Daniel** yn niwedd y 18fed ganrif. Yn ystod yr hanner can mlynedd y bu'n argraffu y mae'n bosibl iddo gynhyrchu mwy o lyfrau Cymraeg neu Gymreig na holl argraffwyr eraill Cymru a'r goror gyda'i gilydd. Yr oedd rhai o'r cynhyrchion hyn yn helaeth o ran maint a chost, e.e. tri argraffiad o ' *Feibl Peter Williams*. ' Yr oedd John Ross yn Annibynnwr ac yn un o ymddiriedolwyr capel Heol Awst, 1781, ac yn un o ddau siryf tref Caerfyrddin yn 1785. Bu farw yn wythnos olaf Hydref 1807, yn 78 oed. Bu ei ferch (neu efallai ei chwaer), ANN SCOTT, yn cadw'r busnes ymlaen am ychydig ar ôl marw ei thad; bu hi farw 24 Medi 1842 yn 107 oed.

### Awdur

Syr **William Llewelyn Davies**, (1887 - 1952)

### Ffynonellau

John Davies, *Rhestr o lyfrau argraffedig yng Nghaerfyrddin gan John Ross rhwng y blynyddoedd 1763 a 1807* (Caerfyrddin 1916)

Ifano Jones, *A history of printing and printers in Wales to 1810, and of successive and related printers to 1923* (Cardiff 1925)

*Transactions of the Carmarthenshire Antiquarian Society and Field Club*, passim

*Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru*, iii, 430

J. Dyfnallt Owen, *Hanes Eglwys Heol Awst, Caerfyrddin* (1926), 25-6

### Darllen Pellach

Eiluned Rees, *Ross, John (1728/9–1807)*, *Oxford Dictionary of National Biography*, 23 September 2004

W. Waters, 'John Ross, printer', *Transactions of the Carmarthenshire Antiquarian Society and Field Club*, 1 (1905–6), 62

W. Waters, 'Llamas Street Chapel', *Transactions of the Carmarthenshire Antiquarian Society and Field Club*, 2 (1906–7), 138–9

W. Waters, 'A short typographical sketch', *Transactions of the Carmarthenshire Antiquarian Society and Field Club*, 7 (1911–12), 77–81

G. E. Evans, 'John Ross', *Transactions of the Carmarthenshire Antiquarian Society and Field Club*, 3 (1907–8), 82

**Family Notices: Deaths**, *The Cambrian*, 31 October 1807, t.3

Erthygl Wicipedia: **John Ross (cyhoeddwr)**

### Dolenni Ychwanegol

VIAF: **305459503**

Wikidata: **Q19325667**

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n **tudalen codi arian** am ragor o wybodaeth.

Preifatrwydd a Chwciis  
Hawffraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Yn ddiolch i  
Llywodraeth Cymru  
Supported by  
Welsh Government